# Hanes Cudd Tregatwg

eich taith



## 1 Parc Fictoria



Yn ôl ym 1880 roedd Tregatwg yn bentref bach gyda 300 o drigolion, tri chapel, swyddfa bost, siop, becws, gefail, siop saer coed a saer olwynion, dwy dafarn ac ysgol. Ar y pryd, hwn oedd y mwyaf o'r pentrefi a gyfunodd i greu tref Y Barri, ynghyd â Merthyr Dyfan a'r Barri.

Yn fuan, cafwyd newidiadau aruthrol yn sgil adeiladu Dociau'r Barri ar y fflatiau llaid i'r de o'r rheilffordd islaw'r parc. O fewn 10 mlynedd roedd glo'n cael ei allforio ledled y byd, gan ddod â bri a ffyniant i'r Barri, yn ogystal ag adeiladau nodedig, megis Swyddfa'r Doc, a pharciau pleser, gan gynnwys Parc Victoria, a agorwyd ym 1909.



## 2 Pen-Y-Bryn, Sea View Terrace

Cartref Thomas Ewbank, a benodwyd yn Ysgolfeistr cyntaf Ysgol Tregatwg o 1879 tan 1921 pan oedd y newidiadau cyflym yn digwydd. Cofnododd y rhain mewn llyfr o'r enw *Geography and History of Barry* a fwriadwyd ar gyfer plant lleol, ond sy'n dal i gael ei werthfawrogi'n fawr gan haneswyr heddiw.

Roedd rhif 2 Sea View Terrace yn gartref i athro ysgol o Dregatwg a Chynghorydd Lleol o'r enw Tom Yeoman, a oedd hefyd yn cynrychioli Cymru mewn Bowlio.

## 3 St. Oswald's Road



Cafodd y stryd ei henwi'n Oswald Road ar ôl Oswald Evans, yr haearnwerthwr, a adeiladodd y tŷ cyntaf yn y stryd. Trwy gamgymeriad, cafodd ei wneud yn Sant gan glerc yn Neuadd y Dref!

## 4 Ysgolion Tregatwg



Wedi'u hadeiladu dros ddegawd wrth i boblogaeth Tregatwg dyfu, gyda'r dyddiadau wedi'u cofnodi ar y clocdwr (1887) a'r adeilad i'r dde (1895)

*Ewch i lawr Heol yr Eglwys.*

## 5 Heol yr Eglwys a Brics Tregatwg



Yn y 1880au roedd brics yn cael eu darparu gan berchnogion y glofeydd ac o Fryste a Bridgewater. Yna roedd brics lleol yn cael eu cynhyrchu yn Nhregatwg a'u stampio â'r enw *Biglis, New Dock, Cadoxton neu Globe – Arkell* oedd y caletaf yn ôl y sôn.

Adeiladwyd tai Cymreig a Seisnig yn Heol yr Eglwys ym 1891. Mae gan y tai Cymreig addurniadau deiliog uwchben drysau a ffenestri i gadw ysbrydion drwg draw. Mae'r rhai Seisnig wedi'u gwneud o frics heb unrhyw addurniad ond mae gan rai crafwyr esgidiau ar gyfer esgidiau gweithwyr Arkell. Yn ddiweddarach roeddent yn cael eu defnyddio gan y dyn llaeth i ddal poteli llaeth.

*Hen chwarel ar waelod Heol yr Eglwys.*

## 6 Crystal Springs



Roedd yr ardal hon yn cynnwys yr odynau calch i losgi'r garreg oedd yn cael ei chwarelu yma, ac fe'i defnyddid yn ddiweddarach fel depo i storio poteli dŵr mwynol - *Crystal Springs*.

*Tŷ gwyn isel ar ochr arall y ffordd.*

## 7 Yr Hen Ysgoldy



Wedi'i adeiladu ym 1847 fel Ysgol Eglwys, ei brifathrawes gyntaf oedd Mrs Greatrex, gwraig y Cigydd lleol.

*Croeswch y ffordd, gan droi i'r dde ac i'r chwith o'r siop. Ewch i fyny'r grisiau ac i gopa glaswelltog y bryn.*

## 8 Cassy Hill, Castle Hill gynt



Yn safle ymsefydlwyr cynharaf Tregatwg, roedd *Double Cot* mewn gwirionedd yn ddau fwthyn to gwellt wedi'u hadeiladu ym 1790, sy'n esbonio'r enw.

*Ewch yn ôl i lawr i'r lôn a cherdded heibio Church Terrace.*



## 9 Eglwys Cadog Sant

Sant Celtaidd pwysig oedd Cadog Ddoeth a aned tua'r flwyddyn 500 OC. Ef oedd sylfaenydd y fynachlog fawr ei bri yn Llancarfan. Yn y fynwent saif y Gofeb Ryfel, a adeiladwyd ar sylfeini croes ganoloesol, ac yno ceir beddau Thomas Ewbank, a Dewin y Barri William Jenkins, mab Ann Jenkins, a adwaenid yn Wrach Porthceri. *Ewch ymlaen i ddilyn Coldbrook Road West (wedi'i dangos ar yr arwydd fel ffordd bengaead).*



## 10 Hebbles House

Safle hen efail Evans y gof. Roedd *Hebbles House* (1887) yn ysgol breifat i ferched, ac roedd *Golden Grove* yn gartref y dewin William Jenkins ac, yn ddiweddarach Mr Walker, adeiladwr Dociau'r Barri.



## 11 Afon Coldbrook

Mae hefyd yn llifo heibio Merthyr Dyfan ac fe'i defnyddid ar gyfer bedyddio.

## 12 Brock Street

Mae cyfrifiad cyntaf 1841 yn cofnodi Brock Street fel yr enw stryd cynharaf a gofnodwyd yn Y Barri, wedi'i henwi ar ôl y teulu Brock a symudodd yma o Wlad yr Haf. Mae gan y ffermdy *The Bowers*, o'r 19eg ganrif, gwrbyn uchel i alluogi gwragedd i godi eu sgertiau uwchben y lôn fwdlyd.



## 13 Knap House

Ar y dde, ar frig Coldbrook Road West, mae *Knap House* o'r 18fed ganrif; yn gyferbyn roedd padog y pentref.



## 14 Yr Hen Lwyfen (Yn gylchfan fach erbyn hyn)

Y man cyfarfod i bentrefwyr glywed newyddion wedi'i gyfleu o Lundain. Roedd Christmas Evans, pregethwr anghydffurfiol ac unllygeidiog enwocaf Cymru, yn arfer pregethu wrth y goeden.

## 15 Heol y Bont

Ar un adeg dyma oedd stryd fawr Tregatwg. Mae'r adeiladau'n cynnwys *Hillside*, dyddiedig 1776, a ddaeth yn dafarn. Ym 1778, cafodd William Jenkins ddadl yma a arweiniodd ato'n gwneud penyd cyhoeddus yn Eglwys Cadog Sant. Roedd Tafarn King William IV, a adeiladwyd rhwng 1830 a 1837, yn cynnal ciniawau a dathliadau mawr ar un adeg. Adeiladwyd Capel y Bedyddwyr Philadelphia ym 1813. Roedd Bythynnod Hillside yn siop a swyddfa bost y pentref ar un adeg, lle ym 1877 roedd y post yn cael ei gasglu ar droed o Gaerdydd, gan alw yn Nhrelái, Gwenfô a Thregatwg cyn dychwelyd y 12 milltir yn ôl i Gaerdydd.




Mae adeiladau eraill yn cynnwys *Caerlan*, ffermdy arall o'r 19eg ganrif (cartref i'r teulu Jordan), a daeth *Hatch Cottage* gyda Hatch Farm gyfagos yn siop gigydd gyntaf y Barri. Fe'i dymchwelwyd ym 1932 i ledu'r ffordd.

## 16 Gyferbyn mae Chwarel Hatch



Gwnaeth ffynnon, a drawyd ym 1911, orlifo'r ardal gan roi terfyn ar y chwarela o ganlyniad. Yn Heol y Bont-faen, *Rock Cottage* yw'r bwthyn hynaf yn Nhregatwg. Yn gartref i Evan Jenkins, crydd y pentref, a'r storfa ffrwydron ar gyfer tanio yn y chwarel

## 17 Pibell Fent Nwy



Wedi'i hadeiladu ym 1890, roedd gan y bibell olau ar y pen wedi'i fwydo gan nwy methan o'r carthffosydd. Roedd hefyd yn safle slab carreg mawr lle roedd cyrff pobl a aned y tu allan i'r plwyf yn cael eu gosod cyn cael eu symud i'w plwyfi geni. Roedd tri llwybr, a elwir yn llwybrau celanedd, yn arwain at eglwysi ym Merthyr Dyfan, Sili, a Saint Andras. *Cymerwch lôn ddi-nod i lawr y bryn, yn gyfochrog â Heol yr Eglwys.*

Y lôn hon oedd y brif ffordd i Dregatwg gan arwain i'r eglwys ac i Ysgol Gyngor gyntaf Tregatwg. *Ar waelod y lôn, byddwch yn cyrraedd Heol y Bont-faen.*

## 18 Tir sanctaidd a Hen Ffordd y Blwyf

Yn ystod y gwaith o adeiladu Heol yr Eglwys ym 1891, darganfuwyd gweddillion dynol ac hoelion eirch, felly gadawyd y tir agored heb ei gyffwrdd fel “tir sanctaidd”.

*Trowch i’r dde, ac ar waelod Bastion Close, cymerwch lôn laswelltog i fyny’r bryn.*



## 19 Ael-y-Bryn



Ar ben y lôn, i’r dde o risiau dwbl trawiadol, roedd *Ael-y-Bryn* yn gartref i Jimmy Wilde, Pencampwr Bocsio Pwysau Pryf cyntaf y byd erioed na chafodd ei drechu rhwng 1916 a 1922, a adwaenid fel *The Mighty Atom* neu *The Ghost with a Hammer in his Hand*. Enillodd 104 o ornestau heb ei drechu, y cyfnod hwyaf a gofnodwyd yn hanes bocsio.



cerdded yng nghefn gwlad VALEWAYS countryside access & walking

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

*Diolch yn fawr am y cymorth gan Brian Luxton a Tom Clement.*

Cadw

Llywodraeth Cymru Welsh Government